**LC248**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynllun newydd o dan Ran IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer adfer tir halogedig.

Gwnaed darpariaeth debyg ar gyfer Lloegr ar 2 Chwefror 2000 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2000 (OS 2000/227). Mae'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol yn ei chynnwys yn yr Atodiad i'w Hunfed Adroddiad ar Ddeg ar gyfer 1999/2000, fel offeryn nad oedd ganddynt unrhyw faterion i adrodd arnynt.

Cafodd y pwerau i wneud y Rheoliadau hyn eu cychwyn gan Orchymyn Deddf yr Amgylchedd 1995 (Cychwyn Rhif 1) 1995 (1995/1983). Mae angen i orchymyn cychwyn gael ei wneud bellach i ddod â'r darpariaethau sylweddol mewn perthynas â thir halogedig i rym mewn pryd ar gyfer cychwyn y rheoliadau presennol ar 1 Gorffennaf 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae nifer o fân bwyntiau (rhai teipograffyddol yn bennaf) wedi'u nodi. Dylai'r rhain gael eu cywiro, a byddai'n briodol eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

Ar yr amod bod y pwyntiau hyn yn cael eu cywiro'n briodol, nid oes unrhyw faterion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

Dyma'r pwyntiau o dan sylw:

- Y dyddiad dod i rym a Rheoliad 1(1) – mae angen dileu'r bachau petryal

- Rheoliad 2(3) – mae yna gromfach agoriadol cyn “rheoli” ond dim cromfach gau gyfatebol
- Rheoliad 7(2) – dylai’r testun Cymraeg ddweud “Y caiff” yn hytrach nag “y Caiff”.
- Rheoliad 8(4)(iii) – dylai “cyflwyno” yn y testun Cymraeg fod yn “gosod”.
- Atodlen 2 – paragraff 4 – mae angen adolygu’r cyfeiriad at “paragraff 5(3) a 5(b)”. A ddylai ‘(5)(b)’ fod yn ‘5(6)’?
- Atodlen 3 – paragraff 12 – dylai “dramgwyddau” fod yn “dramgwydd”.
- Troednodyn (m) (y testun Cymraeg) – dylai “cyfnod o21” fod yn “cyfnod o 21”.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliadau 7(2)(a)-(c) a 10(4)**

Mae iaith ryw-benodol yn cael ei defnyddio.

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001